



ADRODDIAD BLYNYDDOL

2014 - 2015

CYNNWYS

GAIR GAN Y CADEIRYDD.....	2
COFIO AM IFAN	4
Y BWRDD RHEOLI	5
Y PWYLLGOR EIDDO A THENANTIAETH.....	8
Y PWYLLGOR DIWYDIANT AC ECONOMI	21
DIWEDDGLO	25
CYFRIFON BLYNYDDOL 2014 – 2015.....	26

GAIR GAN Y CADEIRYDD

Wedi blwyddyn arall wibio heibio, eleni eto, mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno Adroddiad Blyneddol Antur Nantlle am y flwyddyn 2014-2015. Ynndo mae crynodeb o'r prosiectau, ymdrechion a llwyddiannau'r Antur yn ystod y flwyddyn yn ogystal â gwybodaeth o'r sefyllfa ariannol a'n gweledigaeth at y flwyddyn i ddod. Er y wasgfa economaidd bresennol a'r bygythiadau o golli gwasanaethau mae'n braf adrodd fod yr Antur, drwy ein hymdrechion a disgyblaeth ariannol, wedi gweld blwyddyn eitha' llwyddiannus arall.

Y llynedd adroddwyd fod yr Antur wedi mabwysiadu rheolaeth o Gwmni Adwy Cyf. Erbyn hyn, mae'r broses yma bron a dod i ben. Mae hyn yn golygu y gall mentrau lleol brynu eiddo sydd yn berthnasol i'r ardaloedd maent yn gweithredu ynddynt. Yn sgil hyn, rwy'n gobeithio y bydd dau o'r asedau yma yn nwylo'r Antur yn y flwyddyn sydd i ddod. Edrychwn ymlaen at y trosglwyddo ac i sefydlu perthynas effeithiol gyda'r tenantiaid.

Rwy'n falch o adrodd am brosiect newydd ddaeth i'n rhan eleni sef y cyfle i redeg yr hen ysgol yn Rhyd Ddu am y pum mlynedd ar hugain nesaf. Drwy gydweithio â Chyngor Gwynedd sicrhawyd grant sylweddol i wella'r cyfleusterau ac erbyn hyn mae'n werth gweld yr adeilad ar ei newydd wedd. Rydym wrthi bellach yn adnewyddu'r pethau gweladwy sydd yn cofnodi hanes y bardd, llenor ac ysgolhaig enwog Syr T.H. Parry Williams. Gobeithio y bydd pawb fydd yn aros yno yn gwerthfawrogi'r adeilad a'r ardal brydferth sydd o'i amgylch yn ogystal â bod yn ymwybodol o'i orffennol.

Er ein bod wedi arallgyfeirio rywfaent, mae'n bwysig nad ydym yn colli golwg o'n gwaith craidd sef gosod unedau a chynnig cyfleoedd i fusnesau bychan i gychwyn a ffynnu gyda'r nod o greu gwaith yn lleol. Fel mae'r adroddiad yn mynd i'r wasg, mae'r Antur yn y broses o ychwanegu at ein portffolio drwy brynu pedair uned ddiwydiannol ym Mhenygroes sydd eisoes gyda thenantiaid sefydlog ynddynt. Byddwn eto eleni yn buddsoddi yn ein hadeiladau ac yn parhau â'n rhaglen o gynnal a chadw'r unedau mewn cyflwr deniadol a diogel i'r tenantiaid.

Soniwyd y llynedd am yr ergyd gafodd yr ardal pan welwyd banc HSBC yn cau ym Mhenygroes – adeilad sydd yn perthyn i'r Antur. Yn anffodus, nid ydym wedi bod mewn sefyllfa i ddatblygu'r eiddo oherwydd yr oedi yn y setliad terfynol gyda'r banc. Siom hefyd oedd darganfod fod pydredd coed yn yr adeilad – a bydd angen triniaeth arbenigol cyn gellir symud ymlaen. Serch hynny, rydym yn obeithiol y bydd y problemau wedi eu datrys yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Ar bwnc ychydig yn sensitif - rwyf wedi clywed si - yn y wasg ac ar lafar - fod angen gwaed newydd ar fwrdd yr Antur! Cytunaf yn llwyr gyda'r datganiad yma ac i'r perwyl yma hoffem, fel cyfarwyddwyr, weld yr Antur yn gallu trosglwyddo'r awenau yn raddol i griw ifancach. Felly buasem, fel sefydliad, yn falch o dderbyn enwau - merched a dynion - sydd gyda diddordeb ac awydd gwneud gwahaniaeth yn eu cymuned.

Ni allaf feddwl am 2015 heb gofio am y golled fawr a gafodd y Dyffryn yn ogystal â'r Antur pan fu farw Ifan Glyn Jones ar ddiwedd mis Mawrth. Dros nifer fawr o flynyddoedd bu'n aelod gweithgar, ffyddlon a brwd iawn o Fwrdd Rheoli Antur Nantlle – yn gyn-gadeirydd, arweinydd a ffrind diffuant i lawer. Mae'n gadael bwlch enfawr ar ei ôl yn yr Antur fel mewn sawl sefydliad arall yn yr ardal, yn enwedig ar ei aelwyd yn Hafod y Gân.

Buaswn yn esgeulus iawn o beidio sôn a diolch yn fawr iawn am waith ein Prif Swyddog sef Robat am ei ymdrechion a'r holl waith sy'n cael ei wneud drwy gydol y flwyddyn – yn aml yn y cefndir. Mae Robat wedi gweithio'n aruthrol o galed a diwyd, nid yn unig i gynnal yr Antur ar y trywydd cywir ond hefyd i edrych ar nifer o brosiectau eraill. Ar ran yr holl gyfarwyddwyr, tenantiaid, staff a phawb sydd yn gysylltiedig â'r Antur - diolch o galon i ti Robat.

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn fawr i bawb arall sydd wedi cyfrannu at waith yr Antur mewn unrhyw ffordd – yn swyddogion, gofalmwyr, gwirfoddolwyr, aelodau, tenantiaid, adeiladwyr a thrigolion y Dyffryn.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn lewyrchus arall yn 2015 - 2016.

Diolch yn fawr,

Emrys Jones
Cadeirydd

COFIO AM IFAN

Ar ddiwrnod olaf mis Mawrth 2015, daeth diwrnod trist iawn i'r Antur - ac yn wir yr ardal gyfan - pan gollwyd Cadeirydd yr Antur ac un o'n haelodau mwyaf ffyddlon sef Ifan Glyn Jones, wedi brwydr ddewr gyda'i ieuchyd. Mae'n ffrind cael rhoi gair byr o deyrnged iddo ar gychwyn yr adroddiad blynyddol yma, er mwyn diolch am ei ymroddiad i'r Antur fel Cyfarwyddwr a Chadeirydd ffyddlon a thrylwyr.

Roedd maint y dorf o bobl ddaeth i angladd Ifan yn dangos pa mor uchel ei barch yr oedd fel cydweithiwr, cymydog, ffrind, tad, taid a gŵr. Roedd y Capel a'r maes parcio yn orlawn a phobl hyd yn oed yn sefyll yn y ffordd er mwyn dangos parch. Clywyd nifer o straeon digri a chynnes amdano ar y diwrnod, a'r hyn oedd yn amlwg o'u clywed, heblaw am ei gariad tuag at ei deulu, oedd ei ymrwymiad i gymaint o wahanol achosion teilwng ar hyd ei oes a'i waith diflino i achosion yr oedd yn credu'n gryf ynddynt.



Ifan Glyn

Yn Gyfarwyddwr o'r Antur ac aelod o'r Cyngor Cymuned, roedd Ifan yn adnabyddus i bawb fel dyn oedd yn gweithio er mwyn ei ardal. Wastad yn edrych i greu cyfleoedd a datrys problemau yn Nyffryn Nantlle; wastad yn rhesymol ac yn llawn cyngor defnyddiol a dibynadwy.

Fel Cadeirydd yr Antur, bu'n arwain y fenter gymdeithasol ers rhai blynyddoedd ac roedd ei arweiniad bob tro yn drylwyr a threfnus.

Mae colled fawr yn barod ar ei ôl yng nghyfarfodydd y Bwrdd rheoli a'r is-bwyllgorau yr oedd yn rhan ganolog ohonynt. Roedd yn ymwelydd wythnosol i swyddfa'r Antur ble byddai'n mwynhau sgwrs dros baned am ddatblygiadau niferus brosiectau ac i gynnig gair o gyngor a gwybodaeth oedd wastad yn berthnasol a defnyddiol. Atgofion melyn iawn sydd gennym am Ifan.


Ond, er mor anodd a thrist yw colli person oedd mor weithgar a pharod ei gymwynas, mae gwên yn dod i'n hwynebaw wrth i ni gofio am Ifan a pharch mawr tuag at ei waith i'r Antur dros y blynyddoedd. Gwnawn ein gorau i barhau i weithio tuag at wireddu'r cynlluniau sydd wedi eu cychwyn gydag arweiniad a chymorth Ifan er lles Dyffryn Nantlle.

Diolch Ifan, am bopeth,
gan Staff a Chyfarwyddwyr Antur Nantlle.

Y BWRDD RHEOLI



Emrys Jones,
Cadeirydd



Owain Rowlands,
Is-gadeirydd



OP Huws



Dafydd Owen



Talryn Griffiths




John Pritchard



Gwynne Williams



Cyng. Dyfed Edwards



Myrddin Williams



Richard Wyn Huws



Cyng. Craig ab Iago



Eifion Davies

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Emrys Jones (Cadeirydd).....	Prif Swyddog Tân Cynorthwyol wedi ymddeol
Owain Rowlands (Is-gadeirydd).....	Rheolwr Lleoliadau Digwyddiadau
O P Huws.....	Cyn Gyngorydd Gwynedd a gŵr busnes
Dafydd Owen.....	Cyfarwyddwr Gwasg Dwyfor
Talfryn Griffiths.....	Cyfreithiwr wedi ymddeol
John Pritchard.....	Cyfrifydd
Gwynne Williams.....	Ymgynghorydd Technegol (gwresogi glo caled)
Dyfed Wyn Edwards.....	Arweinydd Cyngor Gwynedd
Myrddin Williams.....	Swyddog Tai wedi ymddeol
Richard Wyn Huws.....	Gŵr camera proffesiynol a gŵr busnes
Craig ab Iago.....	Cyngorydd Gwynedd
Eifion Davies.....	Rheolwr cwmni deunyddiau adeiladu
Ifan Glyn Jones (m. 31 Mawrth, 2015).....	Cyngorydd Cymuned a Phrifathro wedi ymddeol

Ysgrifennydd y Cwmni

Robat Jones

Y Grŵp Datblygu

Justin Davies (Cadeirydd).....	Dylunydd Graffeg
Siwsan Broda (Ysgrifennydd).....	Llyfrgellydd a gwraig fusnes
Rhian Roberts.....	Gwerthwr blodau
Eifion Davies.....	Rheolwr cwmni deunyddiau adeiladu

Cyfarfodydd

Cynhaliwyd 8 cyfarfod o Fwrdd Rheoli Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn. Cyfarfu'r Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth, ac is-grwpiau'r Pwyllgor Diwydiant ac Economi yn gyson yn ogystal â'r Grŵp Datblygu.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar nos Iau, Tachwedd 13^{eg} 2014 yn Neuadd Goffa Penygroes.

Yn unol â'r cyfansoddiad bu i bedwar o'r cyfarwyddwyr ymddeol o'r Bwrdd – John Pritchard, Gwynne Williams, Dafydd Owen ac Emrys Jones. Ail etholwyd y pedwar.

Staff Antur Nantlle

Robat Jones..... Prif Swyddog Antur Nantlle
Bet Hughes..... Gofalwraig y Ganolfan Dechnoleg
Nerys Jones..... Gofalwraig y Ganolfan Fenter
Nia Noone..... Gofalwraig Tŷ Iorwerth



Robat Jones

Bancwyr

HSBC, Cangen Caernarfon.

Ardal Antur Nantlle

Mae Antur Nantlle Cyf yn gweithredu yn ardal Dyffryn Nantlle a'r pentrefi cyfagos sy'n cynnwys: Carmel, Clynnog Fawr, Dinas Dinlle, Y Fron, Y Groeslon, Llandwrog, Llanllyfni, Nantlle, Nasareth, Nebo, Penygroes, Pontllyfni, Talysarn, Tanrallt.

Cyflawniadau 2014 - 2015

Swyddi wedi eu creu neu eu gwarchod..... 83
Nifer wedi cael budd o'r gwasanaethau a gynigir..... 2,700
Nifer a dderbyniodd hyfforddiant..... 54
Mudiadau, cynlluniau a gweithgareddau cymunedol wedi cael cefnogaeth..... 20

Cyfarfod, Trafod a Chydweithio gyda

Cyngor Gwynedd, Y Ganolfan Waith, WEA Cymru, Prifysgol Cymru Bangor, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, Amgylchedd Cymru, Grŵp Gwefan Dyffryn Nantlle, Mantell Gwynedd, Cymorth i Ferched Cymru, Grŵp Cynefin, Ysgol Dyffryn Nantlle, Heddlu Gogledd Cymru, Grŵp Llys Llywelyn, Grŵp Canolfan Cymdeithasol Talysarn, Gŵyl Fai Dyffryn Nantlle, Cyngor Cymuned Llanllyfni, Cyngor Cymuned Llanwnda, Cwmni Adwy Cyf, Cyngor Cymuned Llandwrog, Dyffryn Nantlle 20:20, Menter Llyfni, Neuadd Goffa Penygroes, Annog Cyf, Parc Cenedlaethol Eryri, Grŵp Llandrillo Menai, Cyfenter, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Menter Môn, Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd / Y Bont, SARDA Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Gwersyll Glan Llyn, Clwb Mynydd Prifysgol Leeds, Clwb Canŵio a Chaiacio Bury, degau o ysgolion Gwynedd a Môn, a nifer o grwpiau a chymdeithasau eraill yn y gymuned.

Y PWYLLGOR EIDDO A THENANTIAETH

(Cadeirydd: Myrddin Williams)

Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth Antur Nantlle sy'n cadw llygad ar holl eiddo'r Antur, yn cynnal, cadw ac uwchraddio er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'n tenantiaid. Dyma'r pwyllgor sy'n trin a thrafod ceisiadau am unedau'r Antur a braf yw adrodd fod y mwyafrif helaeth o'n hunedau a'n swyddfeydd yn parhau yn llawn, sydd unwaith eto yn dangos y galw am lefydd gwaith yn ardal Dyffryn Nantlle.

Mae cyfraddau rhenti swyddfeydd ac unedau busnes yr Antur yn parhau i fod yn gystadleuol a'n telerau yn rhesymol iawn, ac fel rhan o'n polisi i gefnogi menter yn yr ardal leol, bu'r Antur unwaith eto yn falch iawn o roi hwb i fusnesau newydd drwy roi dau fis o rent yn rhad ac am ddim iddynt.

Rydym o hyd yn awyddus i gydweithio gydag unrhyw gorff neu asiantaeth sy'n gweithredu i hybu menter a chreu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn ardal Dyffryn Nantlle, felly mae ein hystafelloedd hyfforddiant a chyfarfod ar gael i unrhyw un sydd eisiau cynnal gweithgareddau o'r math yma.

Yn ychwanegol i warchod adeiladau'r Antur, mae'r Antur eto eleni wedi bod yn brysur iawn yn gweithredu fel asiant ar gyfer Cwmni Adwy Cyf, yn gwarchod nifer o adeiladau a gwasanaethu tenantiaid y cwmni ym Mhenygroes, Talysarn, Bethesda, Llanberis, Deiniolen, Blaenau Ffestiniog a Chorris.

Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle

20 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR

01286 882688 technoleg@anturnantlle.com

Yn y Ganolfan Dechnoleg mae prif swyddfa Antur Nantlle, sydd ar agor ar y llawr cyntaf rhwng 9yb – 5yp yn ddyddiol a ble mae croeso i unrhyw un alw heibio.

Yn ddatblygiad arloesol yn 1990au, roedd Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle y cyntaf o'i fath yn yr ardal. Yn wir, yn seiliedig ar gynllun ein Canolfan Dechnoleg ni y sefydlwyd canolfannau dysgu



gydol oes Cyngor Gwynedd. Dros y blynyddoedd, gwelwyd newidiadau mawr mewn darpariaeth gyfrifiadurol a'r galw am wahanol fath o hyfforddiant yn y maes.

Unwaith eto eleni fe gynhaliwyd amrywiol gyrsiau yn yr ystafell hyfforddiant. Diolch i WEA Cymru (Coleg Harlech gynt) am gydweithio ers y cychwyn cyntaf hyd heddiw i gynnig darpariaeth safonol o hyfforddiant cyfrifiadurol ym Mhenygroes. Cynhaliwyd cyrsiau cyfrifiadurol sylfaenol yma yn ogystal â chysiau i rai mwy profiadol, yn dysgu amrywiaeth eang o sgiliau yn cynnwys gweithdai digidol, defnyddio'r we ac e-bost yn ddiogel ac effeithiol, creu cyflwyniadau a llawer mwy dan diwtoriaeth trylwyr a difyr Richard Eastwood.

Cafwyd amryw o sesiynau ar hel achau, siopa ar-lein a defnyddio'r we ar gyfer talu biliau ayb. yn y Llyfrgell gan Liz Regan o Gyngor Gwynedd. Yn ogystal, gwnaed defnydd o'r cyfleusterau i gynnal amryw o gyrsiau a chyfarfodydd ar gyfer y Ganolfan Byd Gwaith a sawl sefydliad arall.

Daeth y cwrs dysgu Cymraeg i Oedolion dan oruchwyliaeth Grŵp Llandrillo Menai i ben yn ystod y flwyddyn, ond y gobaith yw bydd yn ailgychwyn eto. Braf yw cael nodi fod nifer o ddysgwyr wedi datblygu o fod yn siaradwyr Cymraeg sylfaenol iawn i rai mwy profiadol a hyderus oherwydd y cyrsiau sydd wedi eu cynnal yma. Braf fyddai cael cynnig gwasanaeth o'r fath yma i ddysgwyr lleol yng nghanol y pentref unwaith eto yn y dyfodol agos.

Diolch i Adran TG y Cyngor am wasanaethu ein rhwydwaith gyfrifiaduron ac i'r Ddesg Gymorth am drefnu a gofalu fod y neges yn eu cyrraedd unwaith eto. Mae Antur Nantlle yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth yma.

Mae modd llogi'r ystafell hyfforddiant, yn ogystal â chymryd mantais o'n gwasanaeth 'desg dros dro' am bris rhesymol, ac rydym yn parhau i fod yn bwynt ailgylchu papur o bob math a chetris cyfrifiaduron drwy ddefnyddio gwasanaeth Antur Waunfawr.

Diolch yn fawr i Bet Hughes am gadw swyddfeydd y Ganolfan Dechnoleg, y Llyfrgell a Siop 22 yn lân ac yn dwt bob amser.

Llyfrgell Penygroes

Llyfrgellydd - Siwsan Broda

01286 880427 LLPenygroes@gwynedd.gov.uk

Ar adeg ble mae gwasanaethau cyhoeddus i gyd o dan y chwyddwydr a'r dyfodol ymhell o fod yn glir, mae Llyfrgell Penygroes unwaith eto wedi profi ei hun yn adnodd hanfodol bwysig yn y pentref er budd holl drigolion Dyffryn Nantlle a'r ardaloedd cyfagos. Fel lle sy'n cynnig mynediad at gatalog enfawr o lyfrau, cylchgronau, DVDs a gemau fideo, mae yma ryw beth at ddant bawb. Mae mynediad i'r rhyngwyd drwy ddefnydd y cyfrifiaduron cyhoeddus, ac mae'r cyflenwad band-eang diwifr sydd yn yr adeilad hefyd yn boblogaidd ofnadwy.

Mae'r Llyfrgell eleni wedi bod yn brysurach nag erioed, a pharheir i gynnal sawl gweithgaredd yma i blant a rhieni, gyda sesiynau amser stori a chrefftau wastad yn boblogaidd iawn a phlant o bob oed yn cael y cyfle i fwynhau profiadau creadigol yn eu hardal leol.

Roedd ymateb da iawn i sialens ddarllen yr Haf unwaith eto, gan blant ac oedolion, a braf yw cael cofnodi fod nifer o blant a phobl ifanc y Dyffryn yn cymryd mwy o ddiddordeb yn eu

Llyfrgell leol nag erioed

ac yn ddarllenwyr brwd. Yn ystod tymor yr ysgol, ar ôl hanner awr wedi tri'r prynhawn, golygfa gyffredin iawn yn y Llyfrgell yw gweld disgyblion yr ysgolion lleol yn ymchwilio a gwneud eu gwaith cartref yn gydwybodol sy'n dangos pa mor bwysig yw'r Llyfrgell i gymuned Ddyffryn Nantlle. Da iawn chi blant.



Siwsan Broda, Llyfrgellydd Penygroes yn diddanu ac addysgu plant yn ystod un o'r sesiynau stori poblogaidd a gynhaliwyd yn y Llyfrgell eleni



Ar ben hyn oll, mae'r Llyfrgell yn le sy'n cynnig gwasanaeth cymunedol. Mae pawb a ddaw drwy'r drws yn siŵr o dderbyn croeso cynnes a gwasanaeth clodwiw gan Siwsan Broda, Llyfrgellydd Penygroes, neu Anwen a Bethan y Llyfrgellydd Achlysurol. Pleser yw i Antur Nantlle allu parhau i gydweithio gyda'r gwasanaeth pwysig hwn er lles yr ardal.

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, enillodd Llyfrgell Penygroes y wobr am y cynnydd gorau o fenthycwyr o holl Lyfrgelloedd Gwynedd, yn cynnwys plant ac oedolion. Diolch i ti Siw am y gwaith gwych.

Calonogol iawn yw deall fod Llyfrgell Penygroes yn apelio i bobl a phlant o bob oed, a bod y gwasanaeth cwsmer gorau yng Ngwynedd ar gael yma ym Mhenygroes.

Gyda'r ymgynghoriad ar ddyfodol Llyfrgelloedd Gwynedd wedi ei gwblhau tua deufis yn ôl ac ymgynghoriad Her Gwynedd yn mynd yn ei flaen wrth i'r adroddiad fynd i'r wasg, mae ffocws y Llywodraeth a'r Cyngorau Sir yn bendant ar gostau ac effeithlonrwydd. Cymerwn y cyfle eto i adrodd fod Llyfrgell Penygroes, allan o 17 o Lyfrgelloedd drwy'r sir, yn drydedd o ran bod yn gost effeithiol o ran benthyciadau ac yn ail o ran defnyddwyr. Mae defnydd pob agwedd o'r Llyfrgell yn uchel iawn, o'r llyfrau i'r cyfrifiaduron, ac mae'n wir dweud fod Llyfrgell Penygroes yn fwy na Llyfrgell - mae'n ganolfan i'r gymuned gyfan na ellir gwneud hebdi.

Gwasanaeth Adfywio Bro, Cyngor Gwynedd

Swyddogion Adfywio – Kelvin Roberts / Iwan Morris

01286 882968 kelvinroberts@gwynedd.gov.uk / iwangwynmorris@gwynedd.gov.uk

Kelvin

Mae Kelvin wedi bod yn Swyddog Adfywio dros Ddyffryn Nantlle ers 11 mlynedd erbyn hyn, yn cefnogi pobl leol i gyfrannu tuag at adfywio eu cymunedau trwy brosiectau economaidd, cymunedol, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae'n wir dweud ei fod wedi bod yn rhan annatod o lwyddiant sawl prosiect er lles yr ardal drwy gydweithio gyda nifer o sefydliadau cymunedol yn y Dyffryn a thu hwnt. Unwaith eto, mae diolch yr Antur i Kelvin yn fawr.



Kelvin Roberts

Eleni, mae doniau Kelvin ym maes gwaith cymunedol wedi arwain iddo gael secondiad i weithio fel Rheolwr Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf ac mae wedi symud o'r swyddfa ym Mhenygroes i weithio yng Nghaernarfon, am gyfnod beth bynnag. Mae'n golled i'r ardal hebdo, ond dymunwn yn dda iddo gyda llawn sicrwydd y bydd yn llwyddiannus yn arwain ar y gwaith pwysig hwn sy'n cynnwys ardaloedd Talysarn, Caernarfon a Bangor.

Iwan

Croesawn Iwan Morris fel Swyddog Adfywio newydd ardal Dyffryn Nantlle ac edrychwn ymlaen at gydweithio gydag ef ar nifer o brosiectau er lles yr ardal. Wedi gweithio fel rhan o adran Economi a Chymuned y Cyngor ers rhai blynnyddoedd, yn fwyaf diweddar ar brosiect Llyn Trawsfynydd, mae Iwan yn brofiadol yn y maes ac eisoes wedi cychwyn rhoi cymorth i wahanol fentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol yn yr ardal, yn cynnwys yr Antur.

Croeso i Ddyffryn Nantlle Iwan, a mawr obeithiwn y gallwn gydwethio'n llwyddiannus er budd yr ardal ar adeg heriol ofnadwy i gymunedau bychain. Mae cefnogaeth y swyddogion adfywio a'r gwasanaeth yn gyffredinol yn bwysicach nag erioed i ardaloedd fel Dyffryn Nantlle. Gyda thoriadau mewn cyllid ar draws y wlad a sawl gwasanaeth yn debygol o gael ei allanoli i'r trydydd sector, bydd mwy o alw nag erioed ar y swyddogion adfywio wrth i gymunedau geisio ymdopi â'r toriadau mawr sydd eisoes wedi cychwyn.



Iwan Morris

Os oes gennych chi syniad i wella eich cymuned a diddordeb mewn sefydlu menter gymunedol newydd, neu os ydych yn ymwneud â menter gymunedol sydd angen cefnogaeth, cysylltwch gydag Iwan.

Canolfan Fenter Dyffryn Nantlle **Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Gwynedd LL54 6DB**

Dyma gartref cyntaf yr Antur ac yma bu'r Swyddogion yn gweithio rhwng 1991 a 1999 pryd y symudwyd i'r Ganolfan Dechnoleg. Mae'r unedau bychain ar y safle wedi gweld amrywiaeth hynod o fusnesau bach yn mynd a dod ers amser agor y Ganolfan ac wedi bod yn llawn i gyd bron ers hynny.

Mae'r ystafell gyfarfod ar gael i'w llogi am bris rhesymol i gwmnïau ac asiantaethau allanol ar gyfer cyfarfodydd a chysiau ac ati.

Yn yr unedau heddiw mae modd prynu nwy potel a thrwsio eich offer torri gwair gan gwmni Torwoods yn Uned 1; derbyn gwasanaethau plymio o safon uchel gan gwmni Andrew Roberts Cyf yn Uned 2; prynu pysgod trofannol a'r holl offer ychwanegol megis tanciau gan gwmni Pysgod Tropic-Al's yn Uned 3, a phrynu rhannau a nwyddau ceir o bob math yn ogystal â thorri goriadau yn Partiau Ceir Celtic yn Unedau 4-7. Mae Castnets yn gwerthu offer pysgota yn Swyddfa 2 ac yn yr lard mae Alan Jones a'i gwmni Weldio AWJ. Braff iawn yw cael adrodd fod digon o amrywiaeth a bwrlwm fel arfer felly yn y Ganolfan Fenter.



Diolch yn fawr i Nerys Jones am gadw'r Ganolfan Fenter yn lân ac yn dwt bob amser.



Emma Squires, Celtic Auto Parts



Joe Spooner, Torwoods



Siop / Gweithdy, 35 Stryd yr Wyddfa, Penygroes LL54 6NG

Oriel Llun-Mewn-Ffrâm

01286 882056 meic@oriellunmewnffram.co.uk

Mae siop Meical Roberts – Llun Mewn Ffrâm – yn fwy poblogaidd nag erioed ym Mhenygroes, gyda phobl yn teithio yma o bell i weld ei arddangosfeydd o waith celf gwreiddiol a phrintiau o waith rhai o artistiaid cyfoes gorau Cymru megis William Selwyn, Stephen John Owen, Aneurin Jones, Keith Bowen, Carys Bryn a Diane Williams i enwi ond ychydig.

Mae Meical hefyd yn cefnogi artistiaid lleol drwy eu hannog i ddangos eu gwaith yn yr oriel ac yn gwerthu nifer o greffttau, gwaith coed a llechi, cardiau cyfarch, crysau, cerddoriaeth Gymreig, hwdis a mwy.

Dyma'r lle i fynd am wasanaeth fframio o





cofiwch alw heibio – chewch chi mo’ch siomi!

safon uchel heb son am y croeso a phaned sydd wastad ar gael. Dim ots beth sydd gennych i’w fframio, boed yn bâr o fenyg bocsio i grys pêl droed wedi ei arwyddo gan sêr byd-enwog, neu drysor arbennig arall - gallwch fod yn sicr bydd Meic yn ei fframio gyda gwaith o’r safon uchaf un.

Mae waliau’r oriel werth eu gweld, wedi eu haddurno gydag amrywiaeth o luniau yn ogystal â geiriau rhai o ganeuon a cherddi mwyaf arwyddocaol y Gymraeg wedi eu hysgrifennu gan y cyfansoddwyr a’r beirdd eu hunain.

Mae yma gelf a chrefft o safon uchel iawn ac mae’r siop wastad wedi ei chyflwyno yn ddeniadol iawn. Os am anrheg ar gyfer unrhyw achlysur neu rywbeth arbennig i’ch cartref,

Fflat, 35 Stryd yr Wyddfa, Penygroes LL54 6NG

Mae’r Antur yn arbenigo mewn gosod unedau gwaith i fusnesau lleol am delerau rhesymol, ond pan ddaeth y cyfle i allu cynnig lle i fyw i bobl leol hefyd, roedd yr Antur yn falch iawn o wneud hynny.

Wedi ei adnewyddu i safon uchel, mae’r fflat dwy lofft yn le braf a chyfleus iawn i fyw a bum wrthi eleni yn gwneud mân waith cynnal a chadw i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cartref o safon i’n tenant.



‘Siop 22’

10 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR

Mae adeilad 10 Heol y Dŵr ym Mhenygroes wedi ei leoli mewn man canolog yn y pentref ac yn cynnwys tair swyddfa ar y llawr uchaf a siop ar y llawr gwaelod. Dyma esiampl dda o ffordd i gadw adeilad mewn ardal fel Dyffryn Nantlle at ddefnydd busnes lleol cynaliadwy, a hynny ar un o brif strydoedd masnachol yr ardal.

Yn dilyn buddsoddiadau sylweddol yn y blynyddoedd diweddar, a rhagor o waith cynnal a chadw eleni, mae Siop 22 fel y’i gelwid yn lleol werth ei weld.



Cewch yno amrywiaeth o wasanaethau yn cynnwys cyngor busnes ac economaidd ar gyfer prosiectau bach a mawr; gwasanaeth hypnotherapi clinigol ar gyfer ymdrin â nifer o gyflyrau a phroblemau; a gwasanaethau dylunio ar gyfer cardiau busnes, gwefannau, arwyddion a llawer mwy.

Y Siop

Yn anffodus, ar ôl tair blynedd lwyddiannus, cau fu hanes siop flodau a chrefftau Tusw oherwydd rhesymau iechyd. Roedd pawb yn drist o weld y siop yn cau ei drysau ond yn deall yn iawn pam fod rhaid i Rhian gymryd y penderfyniad anodd hwn. Rydym yn dymuno’n dda i Rhian ar ei llwybr i wellhad llawn a gobeithio daw hynny yn fuan iawn.

Mae’r Siop ar gael i’w gosod ar hyn o bryd a’r gobaith yw cael darparu cartref i fusnes lleol arall yma yn y dyfodol agos iawn.

Swyddfa 2

Mae Marc Roberts o’r Groeslon, wedi sefydlu ei fusnes **Ymgynghori MARC** ers bron i bum mlynedd bellach. Mae Marc yn darparu cyngor strategol ac economaidd i fusnesau ac yn brofiadol iawn yn ei faes wedi gweithio fel Swyddog, Rheolwr ac Uwch Reolwr gyda nifer o wahanol asiantaethau yn cynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Bwrdeistrefol Arfon a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae’n arbenigwr ar ddarparu cyngor economaidd a strategol a chreu cynlluniau busnes, ac fel ‘hogyn Dyffryn Nantlle’ mae’n falch o gael gweithio yn ei ardal ei hun.




Mae Marc yn gwneud gwaith i nifer o fusnesau, grwpiau ac asiantaethau, ac yn weithgar iawn yn ei amser rhydd gyda Chlwb Pêl droed Tref Caernarfon ac fel aelod o fwrdd rheoli cwmni Galeri Caernarfon Cyf.

Am gymorth gyda'ch busnes, cysylltwch gyda Marc ar **01286 882677** neu marcconsultancy@btconnect.com.

Swyddfa 3

David Davies a'i fusnes **Hypnotherapi Gwynedd** yw ein tenant yn Swyddfa 3. Yma, mae'n darparu gwasanaethau hypnotherapi clinigol ar gyfer cleifion ac yn eu helpu gyda phob math o gyflyrau yn cynnwys gorbwysedd, ofnau dwys, pyliau o banig, pryder a mwy.

Gallwch gysylltu â David, aelod o Gymdeithas Hypnotherapi Clinigol Prydain, ar **07743 516711** neu www.dj-hypnotherapy.co.uk.



Swyddfa 4

Ein tenant yn Swyddfa 4 yw Justin Davies, sy'n rhedeg cwmni **Dylunio Gringo Design**. Mae Justin yn arbenigwr ar greu gwaith graffeg o bob math a phan nad yw'n perfformio gydag aelodau eraill ei fand llwyddiannus – Gwibdaith Hen Frân – mae'n darparu gwaith brandio, deunyddiau marchnata, argraffu, gwefannau a gwaith dylunio o'r safon uchaf un i'w gleientiaid.

Cysylltwch â Dylunio Gringo Design ar **01286 882561** neu post@gringodesign.co.uk gyda'ch anghenion – mi fyddwch yn falch eich bod wedi gwneud hynny.



Y Barics

Nantlle, Caernarfon, Gwynedd LL54 6BD

Hen 'farics' yn perthyn i Chwarel Penyrsedd oedd Y Barics erstalwm ond erbyn heddiw maent wedi eu troi yn unedau at ddefnydd y gymuned a busnesau bychain.

Unwaith eto, bu cryn dipyn o wariant yma eleni wrth i ni gynnal a chadw'r adeiladau hanesyddol yma sydd dan reolau cadwraeth, a'r tir o'u cwmpas.

Bu Allan Humphreys, gŵr busnes lleol yn brysur drwy gydol y flwyddyn yn torri'r gwair a'r coed ar y



safle ar

ein rhan ac mae ein diolch iddo yntau yn fawr am gadw'r Barics mewn cyflwr da. Rydym yn falch iawn o allu rhoi gwaith rheolaidd i fusnes lleol.



Mae gennym hawl cynllunio ar gyfer codi uned wyliau ar y safle, ac er nad oes ffynonellau cyllid wedi bod ar gael i ddatblygu'r cynllun yn ddiweddar, rydym yn parhau i edrych ac yn gobeithio y bydd modd symud ymlaen gyda'r cynllun hwn yn y dyfodol er mwyn creu cyfleon gwaith i bobl leol yn Nantlle.

Uned 1

Uned fach hardd llawn cymeriad sydd ar gael i'w gosod ar hyn o bryd.

Uned 2

Canolfan Llys Llywelyn yn Uned 2 yw canolbwynt bywyd cymdeithasol pentref Nantlle gyda chriw prysur yn trefnu bob math o weithgareddau sydd yn dod â'r gymuned at ei gilydd. Mae'r Antur yn falch o allu cynnig safle o safon i ganolfan o'r fath. Os cewch gyfle i alw draw am baned a sgwrs, mae'n werth gwneud hynny.



Uned 3

Peter a Wendy Midwinter gyda **Railways Unlimited** sydd yn Uned 3, sef cwmni yn trwsio, cynhyrchu, gwerthu a threfnu arddangosfeydd o drenau bach.

Mae'r arddangosfeydd manwl yma yn cymryd oriau maith i'w hadeiladau ac mae'r gwaith yn gywrain ofnadwy. Mae yma wledd i unrhyw un sy'n frwdfrydig dros reilffyrdd a threnau gyda'r modelau yn ennill clod mewn sawl cylchgrawn mawr am eu safon.



Uned 4

Bu i ni ffarwelio gyda Dyfrig Peris a Jennie Corr a'u busnes llwyddiannus **Peris a Corr** o Uned 4 a fu'n denant da iawn i'r Antur am nifer o flynyddoedd. Trist oedd eu gweld yn gadael wrth gwrs ond roeddem yn hynod o falch fod busnes bach sydd wedi cael lle i sefydlu a thyfu yn un o'n unedau ni wedi cyrraedd y cam nesaf ac yn barod i ehangu a symud ymlaen. Dyma'n union beth yw bwriad yr Antur drwy osod unedau gwaith bychain i fusnesau lleol. Llongyfarchiadau Dyfrig a Jennie a phob dymuniad da i chi yng nghartref newydd Peris & Corr ar Ystâd Ddiwydiannol Penygroes.

Mae'r uned hon ar gael ar hyn o bryd a'r gobaith yw cael darparu cartref i fusnes lleol arall yma yn y dyfodol agos iawn.

Uned 5



Bill Pywell yw ein tenant yn Uned 5, ble mae wedi sefydlu gweithdy **Gwaith Coed Gwyrdd** sydd werth ei weld. Mae Bill yn arbenigwr ar greu dodrefn a chreiriau o bob math allan o goed, ac mae ei waith unigryw a thrawiadol yn boblogaidd iawn. Bu Bill yn arddangos ei waith drwy gydol y flwyddyn mewn gwahanol wyliau crefft unwaith eto eleni a da yw clywed fod nifer o bobl yn ymddiddori yn y sgiliau yma er mwyn eu cadw'n fyw i genedlaethau'r dyfodol.

Mewn cydweithrediad â WEA Cymru, mae Bill yn parhau i redeg nifer o gyrsgiau gwaith coed gwyrdd i ddysgu'r grefft a'r technegau i rai sydd â diddordeb. Braff iawn yw cael adrodd fod nifer o bobl ifanc ac oedolion yn cael addysg mewn crefft o'r fath yn yr uned.

Tŷ Iorwerth

39 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6ES

Mae pob un o'r swyddfeydd sydd ar ddau lawr uchaf adeilad Tŷ Iorwerth yn parhau i fod yn llawn, a bum yn falch o ymgymryd â rhagor o waith cynnal a chadw yn yr adeilad eleni er mwyn cadw'r lle ar ei orau er budd ein tenantiaid.

Diolch yn fawr i Nia Noone am gadw Tŷ Iorwerth yn lân ac yn dwt bob amser.

Bu'n rhaid gohirio ein bwriad i ddatblygu'r llawr gwaelod sef yr hen fanc, wedi i ni ganfod pydredd coed yn y seler. Does dim dewis ond wynebu'r broblem a'i datrys ac i'r perwyl hwn rydym wedi mynd drwy broses o asesu a dewis contractwr addas i wneud y gwaith arbenigol angenrheidiol hwn.

Gwylwch allan am ddatblygiadau yn yr hen fanc cyn gynted bydd y gwaith yma wedi ei gwblhau. Rydym yn awyddus i glywed barn pobl leol, ac os oes gan rywun syniad busnes yr hoffech ei drafod gyda ni ar gyfer y gofod yma, yna mae croeso i chi gysylltu â swyddfa'r Antur unrhyw dro.



Swyddfeydd 1-4

Swyddfeydd Gwasanaethau Llywodraeth Cymru

Mae swyddfeydd 1-4 yn cael eu defnyddio gan staff sy'n darparu gwasanaethau mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru.

Swyddfa 5

Cymuned

Mae Cymuned yn fudiad sy'n gweithio o blaid cymunedau Cymru ac yn denant i Antur Nantlle ers 2011.

Yn Nhŷ Iorwerth mae prif swyddfa Cymuned ac mae'r Antur yn falch o allu cynnig cartref i fudiad sy'n gweithio o blaid cymunedau Cymreig.



Ceir rhagor o wybodaeth am weithgareddau Cymuned ar www.cymuned.org a [www.twitter.com/Cymuned](https://twitter.com/Cymuned).

Swyddfa 6

Cris Jones

Cris Jones sydd yn Swyddfa 6 yn cynnig gwasanaethau cyfieithu.

Mae Cris yn gwneud gwaith cyfieithu o bob math ac yn cynnig telerau rhesymol a gwasanaeth prydlon bob tro.


Ffoniwch Cris gyda'ch anghenion cyfieithu ar **01286 880444**.



Swyddfa 7

Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru

Ben Gregory ac Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru yw ein tenant yn Swyddfa 7. Sefydlwyd yr ymgyrch ym 1986 i gefnogi pobl Nicaragua gyda'u dymuniad am fywyd gwell mewn amgylchiadau caled, ac mae'n parhau i weithio i gefnogi trigolion y wlad hyd heddiw.



Y PWYLLGOR DIWYDIANT AC ECONOMI

(Cadeirydd: Dafydd Owen)

Is-grwpiau Pwyllgor Diwydiant ac Economi Antur Nantlle sydd yn cyfarfod i drin a thrafod cynlluniau economaidd a chwilio am brosiectau newydd er budd Dyffryn Nantlle. Mae hi'n parhau i fod yn gyfnod anodd, sydd wedi gweld lleihad pellach fyth mewn grantiau sylweddol i gwmnïau fel yr Antur ond mae'r drafodaeth yn mynd yn ei blaen a'r dyhead am weld gwelliant economaidd i Ddyffryn Nantlle yn dal i sbarduno. Yr ydym yn barod i drafod gydag unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno gyda ni neu sydd â gweledigaeth ac yn barod i weithio o'i wirfodd er lles yr ardal.

Mae tri prif grŵp wedi bod yn edrych ar gynlluniau eleni, sef y Grŵp Twristiaeth, Grŵp Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu a'r Grŵp Datblygu.

Grŵp Twristiaeth Antur Nantlle

(Cadeirydd – OP Huws)

Mae gan ardal Dyffryn Nantlle cymaint i'w gynnig o ran y maes awyr agored: llwybrau, mynyddoedd, golygfeydd godidog a glan-y-môr bendigedig; heb sôn am ddiwylliant, hanes ac iaith gwbl unigryw. Mae'r Antur yn ymwybodol iawn o'r potensial economaidd i'r ardal sy'n bodoli ym maes twristiaeth, ac mai'r rhwystr i ddatgloi'r potensial yma yw'r diffyg presennol mewn adnoddau a chyfleoedd i ddenu twristiaid i Ddyffryn Nantlle.

Sefydlwyd y Grŵp Twristiaeth rai blynyddoedd yn ôl i edrych ar gyfleoedd i ddatblygu'r ardal i fod yn gyrchfan dwristiaeth, sydd gyda diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg fel canolbwynt iddo.

Llynedd, adroddwyd am y gwaith a wnaed i adeiladu ar yr astudiaethau a gomisiynwyd gan yr Antur, megis Astudiaeth ar Dwristiaeth yn Nyffryn Nantlle, Astudiaeth Dichonoldeb ar sefydlu Cynllun Llety Ymwelwyr a Chanolfan Gweithgareddau Awyr Agored Dyffryn Nantlle.

Yn anffodus, cafwyd siom wrth i Ganolfan yr Ozanam yn Llanllyfni gael ei gwerthu gan y perchnogion, Cymdeithas St. Vincent de Paul, er pob ymdrech i sicrhau perchnogaeth leol a



datblygu cynllun hyfwr uchelgeisiol ar gyfer y ganolfan er budd yr ardal gan Menter Llyfni mewn partneriaeth gyda'r Antur.

Ond o'r llwch cododd gyfle arall...

Grŵp Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu (Cadeirydd – Emrys Jones)

Ar ddechrau 2015 daeth y cyfle i gydweithio gyda Chyngor Gwynedd ar brosiect i ddiogelu dyfodol Canolfan Rhyd Ddu, sef cartref y Prifardd T.H. Parry Williams. Er bu'n rhaid gweithio i amserlen hynod o dynn, aeth yr Antur ati i ymchwilio a pharatoi cynllun busnes cynhwysfawr ar gyfer dyfodol yr adeilad pwysig hwn. Rhoddwyd gynnig i mewn i redeg y ganolfan am gyfnod o 25 mlynedd ym mis Mawrth a fu'n llwyddiannus.



Drwy gydweithio gyda'r Antur, bu i Gyngor Gwynedd allu denu grant o £75,000 o gronfa Cyfenter tuag at waith atgyweirio a gwella hanfodol. Gyda chyfanswm buddsoddiad o £125,000 mae'r adeilad wedi ei weddnewid yn sylweddol ac yn awr yn cynnig safle llawer iawn mwy addas ar gyfer defnydd fel caban cysgu a chanolfan awyr agored.



Ers cymryd yr awenau, mae'r Antur wedi llwyddo i ddenu grantiau o dros £20,000 o Gronfa Wirfoddoli Gymunedol Cyngor Gwynedd, Cronfa Buddsoddi Gymunedol Mantell Gwynedd, Cronfa Arbrofol Eryri gan y Parc Cenedlaethol a Chronfa Gymunedol Horizon ar gyfer gwelliannau hanfodol, ac rydym yn hynod o ddiolchgar am y gefnogaeth yma. Mae'r gwaith o ddatblygu brand a gwaith marchnata, yn cynnwys gwefan gyda sustem bwcio ar-lein, eisoes ar y gweill, ac rydym wedi gosod gwllau a matresi newydd sbon drwy'r ganolfan gyfan. Rydym

hefyd ar fin cychwyn ar raglen o welliannau i'r adeilad yn cynnwys gosod cegin newydd sbon, offer

storio beics yn ddiogel, byrddau a chadeiriau newydd i'r ystafell ddosbarth / fwyta, cadeiriau meddal i'r ystafell gymdeithasol, a mwy.

Mae'r ganolfan yn cysgu 27 o bobl ar hyn o bryd, ond mae cynlluniau ar y gweill i godi hyn i 30 yn y dyfodol agos. Mae gennym gynlluniau hefyd i ddatblygu elfen treftadaeth yr adeilad a datblygu pecynnau cyrsiau preswyl ar hanes a llenyddiaeth Dyffryn Nantlle. Rydym wedi dechrau trafod gydag Amgueddfa ac Oriel Gwynedd ym Mangor, yn ogystal â S4C, ITV a'r BBC i gael hawliau arddangos rhaglenni am fywyd a gwaith T.H. Parry Williams ar y sgrin fawr yn y ganolfan.

Ers ailagor y Ganolfan, rydym wedi darparu i nifer o wahanol grwpiau. Mae cynnig arbennig yn bodoli i ysgolion Gwynedd a Môn ac rydym yn falch iawn o weld nifer o ysgolion wedi cymryd mantais o'r cyfleusterau yn barod. Rydym hefyd wedi

croesawu sawl cymdeithas a grŵp awyr agored yn cynnwys Clwb Canwio a Chaiacio Bury, SARDA Cymru a Chlwb Mynydda Prifysgol Leeds. Mae gennym gwsmeriaid preifat hefyd wedi dechrau llogi'r ganolfan ac rydym yn falch iawn o'r llwyddiant sydd wedi bod hyd yma.

Rydym yn defnyddio cwmni glanhau sy'n cyflogi pobl leol i lanhau'r ganolfan yn drwyadl ar ôl pob ymweliad, ac yn edrych i gyflogi person lleol ar delerau sefydlog i wneud y gwaith yma a mwy mor fuan â phosib. Yn wir creu gwaith a chyfleoedd hyfforddiant yn lleol yw ein prif nod gyda'r cynllun ac wrth i'r cynllun ddatblygu y bwriad yw cyflogi swyddog datblygu twristiaeth a rhagor o swyddi yn y dyfodol.

Rydym wedi bod yn ffodus iawn o dderbyn cymorth a chynghor arbenigol gan Urdd Gobaith Cymru yn cynnwys gan reolwyr a swyddogion Gwersyll Glan Llyn a Swyddogion Awyr Agored yr Urdd, ac mae ein diolch iddynt yn fawr. Drwy gydweithio, rydym yn gallu cynnig dewis eang o weithgareddau awyr agored i westeion Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu, gan arbenigwyr profiadol yn y maes. Mae'r Urdd, a nifer o ddarparwyr eraill yn y maes, hefyd yn gallu defnyddio Canolfan Rhyd Ddu fel canolbwynt i'w digwyddiadau eu hunain yn Eryri. Edrychwn ymlaen yn fawr i gydweithio pellach ac i ddatblygu cyfleoedd di-ri yn ardal Dyffryn Nantlle.



Mae llawer iawn o waith caled o'n blaen yn y ganolfan felly, ond mae'r potensial yma i greu rhywbeth arbennig iawn ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at y cam nesaf.


Y Grŵp Datblygu

(Cadeirydd – Justin Davies; Ysgrifennydd – Siwsan Broda)

Mae cynllun peintio y bu'r Grŵp Datblygu yn gweithio arno newydd ei lansio, ac wedi i'r Gaeaf basio rydym yn gobeithio dechrau gwneud argraff fawr ar y pentref gyda'r cynllun drwy gael cymaint o gyfranogwyr â phosib.

Mae cryn dipyn o drigolion wedi dangos diddordeb yn y cynllun hyd yma a sawl ffurflen gais wedi eu dychwelyd.

Gobeithio felly mai 2016 fydd y flwyddyn i Benygroes gael ei beintio'n goch, a gwyrdd, a glas, a melyn, a...



DIWEDDGLO

Mae'r Antur yn gweithredu am y bumed flwyddyn gydag un swyddog yn unig, ond mae ein gobaith o allu cynnig swyddi ychwanegol eto o fewn y cwmni yn y dyfodol yn parhau. Drwy ddatblygu prosiectau newydd, megis Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu, ein gobaith yw gallu cynnig cyflogaeth yn uniongyrchol yn ogystal â chreu cyfleoedd eraill yn lleol fel canlyniad i'r prosiectau hynny drwy ysgogi pobl i fentro eu hunain. Wrth i bortffolio adeiladau'r cwmni dyfu yn y flwyddyn sydd i ddod – o 6 i 10 adeilad yn cynnwys Canolfan Rhyd Ddu – bydd llawer iawn mwy o waith gweinyddol a chynnal a chadw ac rydym yn gobeithio bod mewn sefyllfa i gyflogi swyddog arall yn fuan yn 2016.

Yr un yw nod yr Antur ers ei sefydlu yn ôl ym 1991, sef datblygu cynlluniau ddaw a gwelliannau economaidd a chymdeithasol i Ddyffryn Nantlle. Mae gennym nifer o gyfrifoldebau eraill erbyn hyn megis gwarchod ein hadeiladau a'n tenantiaid, sy'n bwysig iawn i ni – a chan fod ein ffiniau oddi mewn i ardal Dyffryn Nantlle mae'r gwaith hwn llawer yn haws a ninnau yn un teulu mawr.

Er mor heriol yw'r cyfnod presennol, gyda'r toriadau sylweddol sy'n wynebu'r sectorau preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector, edrychwn ymlaen unwaith eto at y flwyddyn sydd o'n blaenau. Gobeithio cawn wireddu ein cynlluniau i fuddsoddi er mwyn sicrhau perchnogaeth leol ar ragor o adeiladau masnachol yn y Dyffryn.

Rydym wedi gweld dechrau ein cynlluniau ym maes twristiaeth yn dwyn ffrwyth, er mwyn ateb yr angen mawr sy'n bodoli i greu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl leol. Edrychwn ymlaen yn fawr i ddatblygu prosiect Canolfan Rhyd Ddu yn ei flaen yn 2016 yn ogystal â datblygu yr hen fanc.

Rydym wastad yma i wrando a thrafod syniadau; gweithio gyda'n gilydd fel un yw'r ffordd orau i warchod a gwella ein cymunedau. Byddwn yn falch o glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â ni i weithio er lles yr ardal.

CYFRIFON BLYNYDDOL 2014 – 2015

ANTUR NANTLLE CYF.

Rhif Y Cwmni : 2618216

CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU MAWRTH 31, 2015

**A. HUGHES JONES DYSON A'U CWMNI
CYFRIFWYR SIARTREDIG
CAERNARFON**

ANTUR NANTLLE CYF.

Cynnwys	Tudalen
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	1
Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	2
Adroddiad Yr Archwilwyr	3
Cyfrif Incwm a Gwariant	4
Mantolen	5
Nodiadau	6 - 7
Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl	8

ANTUR NANTLLE CYF.
Adroddiad Y Cyfarwyddwyr Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2015

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol ynghyd a'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31, 2015.

Prif Weithgareddau

Prif weithgaredd y cwmni yw hybu gweithgareddau sydd er lles economaidd, cymdeithasol ac yr amgylchedd yn Dyffryn Nantlle.

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn oedd:

Owen Penant Huws	Ifan Glyn Jones (Bu Farw 31.3.2015)
Talfryn Griffiths	Richard Wyn Huws
John Pritchard	Emrys Jones
Dafydd Owen	Myrddin Williams
Elwyn Jones Griffith (Bu Farw 19.10.2014)	Craig ab Iago
Dyfed Wyn Edwards	Owain Rowlands
Gwynne Williams	Eifion Wyn Davies (Penodwyd 17.2.2015)

Datganiad O'r Datgeliad Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Cyn belled a mae'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sydd yn berthnasol i'r archwiliad (fel diffiniwyd gan Adran 418 o Ddeddf Cwmnïau 2006) nad yw archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol ohono, ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymeryd y camau y dylent fel cyfarwyddwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol i'r archwiliad ac i sefydlu y bod archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth yma.

Archwilwyr

Mae A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni wedi datgan eu parodrwydd i barhau yn eu swydd.

Mae'r adroddiad wedi cael ei baratoi ar sail y darpariathau arbennig sydd yn Rhan VII o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach.

Dyddiad:

28^{ed} Mawrth 2015

[Signature]

Drwy orchymyn y bwrdd

ANTUR NANTLLE CYF.
Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr ar datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio gyda'r gyfraith a rheolau perthnasol.

O dan y Ddeddf Cwmnïau y mae yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon pob blwyddyn. O dan y ddeddf mae'r Cyfarwyddwyr wedi ethol i baratoi y datganiadau ariannol yn unol a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o fewn y Deyrnas Unedig). O dan gyfraith cwmnïau ni ddyliau y Cyfarwyddwyr gymeradwyo y datganiadau ariannol onid eu bod wedi eu bodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o'r gweddill neu'r diffyg am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynol i'r cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddol priodol a'u defnyddio'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol;
- datgan os yw'r polisiau cyfrifyddol wedi eu dilyn, neu datgelu ac esbonio unrhyw ymadawiad materol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail busnes byw os nad ydyw hi yn amhriodol i dybio fydd y cwmni yn parhau mewn busnes.

Mae cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol sy'n dangos safle ariannol y cwmni a'u galluogi i sicrhau fod y cyfrifon yn cydsynio efo Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly yn gyfrifol am rwystro a datgelu twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Dyddiad:

29^{ed} Mawrth 2015

E. J. Jones
 Drwy orchymyn y bwrdd

Adroddiad Yr Archwilwyr Annibynnol At Aelodau Antur Nantlle Cyf.

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Antur Nantlle Cyf am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31 2015 ar dudalennau 4 i 7. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol i Unedau Llai (effeithiol Ebrill 2008), ac o dan y confensiwn cost hanesyddol ac yn ol y polisiau cyfrifyddol a restrir.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei greu i aelodau y cwmni, fel corff, ac yn unol a Pennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae ein gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac i ddim pwrpas arall.

Hyd at yr eithaf a ganiatei'r trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Ac Archwilwyr

Mae cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr am baratoi datganiadau ariannol sydd yn rhoi darlun gwir a theg ac yn unol a rheolau cyfreithiol a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o fewn y Deyrnas Unedig) wedi eu mynegi yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r cyfrifon yn unol a gofynion cyfreithiol a rheolau perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau yma yn gofyn i ni gydymffurfio gyda safonau moesegol i archwilwyr sydd wedi eu penodi gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio, gan gynnwys 'safonau moesegol Bwrdd Ymarferion Archwilio - Darbodion ar gael i Gwmnïau Llai (Diwygiedig)', yn yr amgylchiadau sydd wedi eu nodi yn nodyn 1 o'r datganiadau ariannol.

Sail yr archwiliad or datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth berthnasol i'r symiau a'r datgeiliadau yn y cyfrifon sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatganiadau sylweddol, a fyddai wedi'u achosi gan dywyll neu gamsyniad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r; amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol a wnaed gan y cyfarwyddwyr wrth baratoi'r cyfrifon gan ystyried a yw'r polisiau cyfrifyddol yn briodol i amgylchiadau'r cwmni, ac yn cael e'u gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; yn ogystal a gwedd gyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, rydym yn darllen y gwybodaeth ariannol ac arall yn adroddiad y cyfarwyddwyr er mwyn datgelu unrhyw anghysondeb sylweddol i'r cyfrifon rydym yn eu harchwilio. Os i ni ddod ar draws anghysondeb neu gam-ddatganiad sylweddol, mi fyddwn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein adroddiad.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn mae'r cyfrifon yn:

- rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ar Fawrth 31, 2015 ac o'r gweddill ar gyfer y flwyddyn oedd yn terfynu y pryd hynny;
- wedi eu paratoi yn unol ac Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o Fewn y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i Unedau Llai; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag amodau Deddf Cwmnïau 2006.


Barn ar faterion a benodwyd gan Ddeddf cwmnïau 2006

Yn ein barn mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Y Cyfarwyddwr am y flwyddyn ariannol sy'n berthnasol i'r flwyddyn mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson gyda'r datganiadau ariannol.

Materion mae'n orfodol i ni adrodd arnynt mewn eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ar y materion canlynol ble mae'r Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ein gofyn i ni adrodd i chi os yn ein barn:

- nad yw'r cwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddol digonol, neu nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad oddiwrth ganghenau nad ydym wedi ymweld a hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyfun ar cofnodion ariannol; neu
- bod datguddiadau sy'n ofynol dan gyfraith cwmnïau yn berthnasol i enillion cyfarwyddwyr heb eu datgelu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad sydd ei angen er mwyn cwblhau ein archwiliad; neu
- nid oedd y cyfarwyddwyr yn deilwng i baratoi'r cyfrifon ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn unol a rheolau cwmnïau bach.


Mr Brian Hughes (Prif Archwiliwr Statudol)
 ar ran A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni
 Archwilwyr Statudol a Cyfrifwyr Siartredig

Dyddiad: 28/5/2015

ANTUR NANTLLE CYF.
Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2015

		Gweithrediadau Parhaol 2015	Gweithrediadau Parhaol 2014
	Nodiadau	£	£
Incwm		109,880	93,137
Gwariant		<u>(90,926)</u>	<u>(89,354)</u>
Incwm Sy'n Weddill	2	18,954	3,783
Llog Derbyniadwy		<u>99</u>	<u>59</u>
Gweddill Cyn Trethiant		19,053	3,842
Trethiant	3	<u>(2,919)</u>	<u>(12)</u>
Gweddill Ar Ol Trethiant		16,134	3,830
Gweddill Ddygwyd Ymlaen		<u>125,912</u>	<u>122,082</u>
Gweddill Cariwyd Ymlaen		<u>142,046</u>	<u>125,912</u>

ANTUR NANTLLE CYF
Mantolen Ar Fawrth 31, 2015

	Nodiadau	2015	2014
		£	£
Asedau Sefydlog			
Asedau Cyffyrddadwy	4	225,831	250,545
Asedau Cyfredol			
Dyledwyr	5	9,374	7,062
Arian Yn Y Banc Ac Mewn Llaw		<u>127,004</u>	<u>104,518</u>
		136,378	111,580
Credydwy: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn	6	<u>(13,994)</u>	<u>(8,336)</u>
Asedau Cyfredol Net		<u>122,384</u>	<u>103,244</u>
Cyfanswm Asedau Llai Rhwymedigaethau Cyfredol		348,215	353,789
Croniadau Ac Incwm Gohiriedig	7	(206,169)	(227,877)
		<u>142,046</u>	<u>125,912</u>
Cronfeydd		<u>142,046</u>	<u>125,912</u>

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail y darpariaethau arbennig sydd o fewn Rhan 15 o Ddeddf Cwmiau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach ac yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol i Unedau Llai (effeithiol Ebrill 2008).

 Cyfarwyddwr

 Cyfarwyddwr

28af Mai 2015 Dyddiad

Rhif Cwmni: 2618216

ANTUR NANTLLE CYF.
Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2015

1 Polisiau Cyfrifyddol

Y sail gyfrifyddol

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol ac yn unol a'r Safon Adrodd i Unedau Llai.(Effeithiol Ebrill 2008)

Asedau sefydlog cyffyrddadwy

Fe gynhwysir asedau sefydlog cyffyrddadwy yn ol eu cost.

Fe ddibrisir yr asedau dros amcangyfrifiad o'u hoes economaidd defnyddiol fel a ganlyn:

Tir ac adeiladau - 4% o'r gost pob blwyddyn
 Offer - 20% drwy'r dull mantol yn lleihau
 Cyfrifiaduron - 25% drwy'r dull mantol yn lleihau

Mae gwariant ar itemau cyfalaf llai £100 yn cael ei trin fel gwariant yn y flwyddyn.

Grantiau

Mae grantiau sy'n ymwneud ag asedau sefydlog yn cael eu gosod mewn cyfrif incwm gohiriedig. Fe ryddheir swm yn flynyddol i'r cyfrif incwm a Gwariant sy'n cyfateb i'r dibrisiant a ddarparwyd ar gyfer yr asedau perthnasol.

Archwilwyr

Yn gyffredin a nifer o fusnesau o'n maint a natur, rydym yn defnyddio ein archwilwyr i baratoi a chyflwyno ffurflenni priodol i'r awdurdodau treth ag i'n cynorthwyo gyda'r gwaith o baratoi y datganiadau ariannol.

2 Incwm Sy'n Weddill

Mae'r incwm sy'n weddill ar ol;

	2015 £	2014 £
<i>Rhoi credyd am;</i>		
Incwm Gohiriedig a ryddhawyd	<u>21,708</u>	<u>21,708</u>
<i>Ac ar ol codi am:</i>		
Dibrisiant	24,714	24,834
Archwilio	<u>1,980</u>	<u>1,920</u>

3 Treth Gorfforaeth

	£	£
Darpariaeth am y Flwyddyn	<u>2,919</u>	<u>12</u>

ANTUR NANTLLE CYF.

4 Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy

	Tir Rhydd-ddaliad		
	Ac Adeiladau	Offer	Cyfanswm
	£	£	£
Cost			
Ar Ebrill 1af 2014	605,713	14,770	620,483
Ychwanegiadau	-	-	-
Gwarediadau	-	-	-
Ar Fawrth 31 2015	<u>605,713</u>	<u>14,770</u>	<u>620,483</u>
Dibrisiant			
Ar Ebrill 1af 2014	357,427	12,511	369,938
Codiant am y flwyddyn	24,228	486	24,714
Gwarediadau	-	-	-
Ar Fawrth 31 2015	<u>381,655</u>	<u>12,997</u>	<u>394,652</u>
Gwerth Ar Bapur Net			
Ar Fawrth 31 2015	<u>224,058</u>	<u>1,773</u>	<u>225,831</u>
Ar Fawrth 31 2014	<u>248,286</u>	<u>2,259</u>	<u>250,545</u>

5 Dyledwyr	2015	2014
	£	£
Dyledwyr Eraill	4,735	2,040
Rhagdaliadau ac incwm a gronwyd	<u>4,639</u>	<u>5,022</u>
	<u>9,374</u>	<u>7,062</u>

6 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn	£	£
Credydwyr eraill	7,245	5,774
Treth Gorfforaeth	2,919	12
TAW	<u>3,830</u>	<u>2,550</u>
	<u>13,994</u>	<u>8,336</u>

7 Croniadau Ac Incwm Gohiriedig	£
Ar Ebrill 1af, 2014	227,877
Swm a Rhyddhawyd	21,708
Ar Fawrth 31, 2015	<u>206,169</u>

ANTUR NANTLLE CYF.
Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2015

	2015		2014	
	£	£	£	£
Incwm				
Gwasanaethau		8,832		6,320
Rhent Canolfan Fenter		18,509		18,263
Rhent Swyddfeydd		29,891		38,497
Rhent Stryd y Wyddfa		7,917		7,810
Rhent Llyfrgell		6,293		6,122
Ffioedd Rheoli		27,721		-
Grantiau prosiectau		9,387		12,980
Rhoddion		-		325
Incwm Arall		<u>1,330</u>		<u>2,820</u>
		109,880		93,137
Gwariant				
Grantiau Cyfalaf Yn Cael Eu Rhyddhau	(21,708)		(21,708)	
Cyflogau	35,697		36,284	
Costau Pensiwn	875		1,542	
Costau Teithio	801		-	
Costau Swyddfa	644		366	
Llogi Offer	1,003		363	
Costau prosiectau	9,763		14,542	
Ffon	646		347	
Hysbysebu	504		354	
Costau Cynnal A Chadw	18,160		15,259	
Gwres a Goleuo	6,316		5,824	
Trethi	3,157		1,654	
Yswiriant	6,116		6,471	
Costau Archwilio	1,980		1,920	
Costau Proffesiynol	-		450	
Costau Banc	1,007		321	
Manion	1,251		531	
Dibrisiant Ar Adeiladau	24,228		24,228	
Dibrisiant Ar Offer	<u>486</u>		<u>606</u>	
		90,926		89,354
Gweddill am y flwyddyn		<u>18,954</u>		<u>3,783</u>



CANOLFAN DECHNOLEG ANTUR NANTLLE
20 HEOL Y DŴR
PENYGROES
GWYNEDD
LL54 6LR

01286 882688

post@anturnantlle.com

www.anturnantlle.com

www.facebook.com/anturnantlle

